

SUT GALL DY FUDIAD GYMRYD RHAN YN DYDD MIWSIG CYMRU?



CYMRAEG

Beth yw Dydd Miwsig Cymru?

Mae Dydd Miwsig Cymru yn cael ei gynnal ddydd Gwener 13 Chwefror 2026, ac mae'n dathlu byd bywiog miwsig Cymraeg. O draddodiadau gwerin cryf i electronica arloesol, o anthemau indi i guriadau hip hop, mae miwsig Cymraeg yn adlewyrchu iaith fyw a diwylliant creadigol ffyniannus.

Mae llawer o fudiadau wedi cefnogi'r diwrnod yn y gorffennol gan gynnwys Dŵr Cymru, Mentrau Iaith, Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol, Cymdeithas Bêl-droed Cymru a'r Urdd. Maen nhw wedi mynd ati i gefnogi drwy gynnal gigs, gwneud addewid i ychwanegu miwsig Cymraeg at eu rhestrau chwarae yn barhaus, chwarae miwsig Cymraeg yn unig ar y dydd, a rhannu rhestrau chwarae Cymraeg gyda'u miloedd o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol – mae'n hawdd iawn cymryd rhan, a gallwn ni helpu.

Os bydd dy fudiad yn dathlu o'r gweithle neu'n ddigidol, mae llawer o ffyrdd i gymryd rhan.



Sut galli di gymryd rhan?

- **Troi'r sain yn uwch:** Chwarae miwsig Cymraeg yn dy weithle neu yn ystod cyfarfodydd rhithwir. Defnyddio ein rhestrau chwarae parod neu gofyn i ni greu rhestr chwarae unigryw ar gyfer dy fudiad.
- **Rhannu'r bwrlwm:** Cynnal gig byw neu berfformiad ar-lein gydag artist Cymraeg.
- **Rhannu cefnogaeth dy fudiad yn weledol:** Newidia dy lun proffil neu lun baner ar y cyfryngau cymdeithasol i frand Dydd Miwsig Cymru.
- **Ymuno â'r sgwrs:** Rhannu dy gariad at fiwsig Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol. Dilyn @Cymraeg a defnyddio #Miwsig a #DyddMiwsigCymru – fe wnawn ni rannu'r negeseuon!
- **Gosod y gwaddol:** Paid â rhoi'r gorau iddi ar ôl un diwrnod – ychwanega fiwsig Cymraeg at restrau chwarae rheolaidd dy fudiad a pharhau i ddathlu'r miwsig drwy gydol y flwyddyn.

Pam cymryd rhan?

Mae cymryd rhan yn ffordd hawdd o ddangos cefnogaeth i'r Gymraeg, rhoi sylw i artistiaid Cymraeg, a chysylltu â chwsmeriaid a staff drwy fiwsig.



Negeseuon templed ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol:

* Os yw'n well gan dy fudiad greu negeseuon cyfryngau cymdeithasol eu hunain yn Saesneg, galli di eu hanfon nhw draw at Helo Blod, sef dy wasanaeth cyfieithu cyflym a chyfeillgar, am ddim: www.llyw.cymru/HeloBlod

Cymraeg

Fel cwmni o Gymru mae'r Gymraeg yn bwysig iawn i ni. Dyna pam ein bod ni'n gwneud addewid o #DyddMiwsigCymru ymlaen i chwarae miwsig Cymraeg drwy gydol y flwyddyn @Cymraeg

I ddathlu #DyddMiwsigCymru fory, rydyn ni'n chwarae miwsig Cymraeg drwy'r dydd. @Cymraeg

Ar gyfer #DyddMiwsigCymru eleni rydyn ni'n gwrando ar un o'r rhestrau chwarae arbennig. Cer i wrando hefyd @Cymraeg <https://open.spotify.com/user/miwsig>

Mae gennym ni fandiau ac artistiaid Cymraeg anhygoel yng Nghymru. Heddiw, rydyn ni'n gwrando ar [noda enw'r artist yma] i baratoi ar gyfer #DyddMiwsigCymru fory. @Cymraeg

English

As a Welsh organisation, the Welsh language is important to us. That's why from #DyddMiwsigCymru onwards we pledge to play Welsh language music all year round @Cymraeg

To celebrate #DyddMiwsigCymru tomorrow, we are playing Welsh language music all day. @Cymraeg

For this #DyddMiwsigCymru we're listening to one of the specially curated playlists. You can listen to it too @Cymraeg <https://open.spotify.com/user/miwsig>

We have some amazing Welsh language bands and artists here in Wales. Today, we're listening to [insert artist here] in preparation for tomorrow's #DyddMiwsigCymru. @Cymraeg

Brandio

Ar gyfer 2026, mae gennym ni waith celf newydd sbon a phosteri digidol i ti eu lawrlwytho.

LAWRLWYTHA



Cadwa mewn cysylltiad

Dilyna ni ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i gael gwybod y diweddaraf am ddigwyddiadau Dydd Miwsig Cymru, pa fiwsig newydd sy'n cael ei ryddhau a sut i gymryd rhan.

Facebook [@Cymraeg](#)

X [@Cymraeg](#)

Instagram [@Cymraeg_welsh](#)

TikTok [@Cymraeg](#)

Youtube [@Cymraeg](#)

Os hoffet ti gymorth i ddathlu Dydd Miwsig Cymru neu gael peth o'r deunydd marchnata uchod, neu os oes gen ti ymholiad ar ran y wasg, cysyllta â Ffion Roberts, ffion.roberts@workingword.co.uk.

Rydyn ni hefyd am glywed sut rwyf ti'n cymryd rhan ac yn awyddus i rannu sut mae mudiadau'n cymryd rhan.

